# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2010 (3:30pm)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G.O. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; B. Durkin; Jim Evans; Keith Evans;C.Ll.Everett,P.M.Fowlie, D.R.Hughes, Fflur M.Hughes; K.P.Hughes,R.Ll.Hughes; W.I.Hughes; Aled Morris Jones; Eric Jones; H.Eifion Jones;O.Glyn Jones; Raymond Jones; R.Dylan Jones; C.McGregor; Rhian Medi,Bryan Owen; J.V.Owen; R.L.Owen; R.G.Parry OBE; G.O.Parry MBE; Eric Roberts; J.A.Roberts, P.S.Rogers,E.Schofield;Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Interim<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylcheddol a Gwasanaethau Technegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog y Wasg |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T.Ll.Hughes, W.T.Hughes, R.Ll.Jones, T.H.Jones, G.W.Roberts,OBE, H.W.Thomas, J.Penri Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda Gweddi gan y Cynghorydd E.G. Davies.

### 1 CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Selwyn Williams yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2010/11.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei apwyntio roedd am addo i'r Cyngor y byddai'n ymgymryd â'i ddyletswyddau hyd y gorau o'i alluoedd. Cymerodd y Cynghorydd Williams y cyfle i dalu teyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd O. Glyn Jones am ei ymrwymiad yn cynrychioli'r Cyngor Sir trwy gydol tymor ei swydd.

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd O. Glyn Jones, i'r aelodau ac i swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod tymor ei swydd. Rhoddodd grynodeb o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd a hynny'n golygu cynrychioli'r Cyngor Sir mewn gwahanol weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Mynegodd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Williams gan obeithio y byddai yntau hefyd yn mwynhau tymor hapus a llwyddiannus yn ei swydd.

## 2 IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gwilym O. Jones yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2010/11.**

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r aelodau am eu hyder ynddo gan ddiolch i'r aelodau am eu geiriau caredig. Dywedodd mai ei fwriad oedd cydweithredu gyda'r Cadeirydd oedd newydd ei ethol a'i gefnogi ym mhob ffordd.

Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Jones gan Arweinydd y Cyngor ar yr anrhydedd o gael ei apwyntio'n Is-Gadeirydd. Aeth yn ei flaen i ddweud i gytundeb gael ei wneud gyda grwpiau gwleidyddol y Cyngor y byddai'r Grwpiau oedd yn Gwrthwynebu yn cael y cyfle o ddewis Is-Gadeirydd o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

Roedd y Cynghorydd W.J. Chorlton, Arweinydd Grwp yr Wrthblaid hefyd am longyfarch yr Is-Gadeirydd ar ei apwyntiad ac roedd yn edrych ymlaen at ddarparu enw ymgeisydd i fod yn Is-Gadeirydd yn ystod blwyddyn ddinesig 2011/12.

## 3 APWYNTIO IS-ARWEINYDD I'R CYNGOR SIR

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Selwyn Williams gan y Cynghorydd Ff.M.Hughes ar gael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor Sir. Roedd y Cynghorydd Ff.M.Hughes hefyd am gymryd y cyfle i gynnig ail apwyntio'r Cynghorydd R.G.Parry,OBE fel Is-Arweinydd y Cyngor. Eiliwyd y cynnig hwnnw gan y Cynghorydd O. Glyn Jones.

**PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, yn cael ei ail ethol yn DDIRPRWY ARWEINYDD Cyngor Sir Ynys Môn.**

Diolchodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael ei ail apwyntio'n Ddirprwy Arweinydd y Cyngor Sir. Roedd hefyd am longyfarch y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn dilyn eu hapwyntio heddiw a diolchodd i Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol am eu cydweithrediad.

## 4 DATGANIADAU

Dim i'w adrodd.

## 5 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w ddatgan.

## 6 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD / AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Rheol 4.4.1.2 o Reol Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith, enwodd Arweinydd y Cyngor y canlynol fel yr aelodau yr oedd wedi'u dewis i wasanaethau ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u Cyfrifoldebau Portffolio:-

| | |
|---|---|
| Cynghorydd C. McGregor (Arweinydd) | - Deilydd Portffolio Cyfreithiol, Fflyd, Iechyd a Diogelwch Cysylltiadau a'r Cyfryngau, Wylfa, Prynu |
| Cynghorydd R. Ll. Hughes | -Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cynghorydd Bryan Owen | -Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd a Thwristiaeth |
| Cynghorydd E. G. Davies | -Deilydd Portffolio Priffyrdd, Cludiant a Morwrol |
| Cynghorydd K.P.Hughes | -Deilydd Portffolio Addysg a Hamdden |
| Cynghorydd Aled Morris Jones | -Deilydd Portffolio Cynllunio |
| Cynghorydd Ieuan Williams | -Deilydd Portffolio Rheoli Corfforaethol |
| Cynghorydd Tom Jones | - Deilydd Portffolio Cyllid a TGCh |

Cynghorydd W. I. Hughes - Deilydd Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol
Cynghorydd R.G.Parry,OBE - Deilydd Portffolio yr Amgylchedd, Eiddo a Mân-ddaliadau

Cymerodd yr Arweinydd y cyfle hwn i fynegi ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd K.P. Hughes, oedd newydd ei ethol yn Ddeilydd Portffolio Addysg a Hamdden a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd.

**7 CADARNHAU'R PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ail apwyntio'r strwythur Pwyllgorau presennol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r penderfyniad a gymerwyd ar Eitem 5.4 ynghynt mewn perthynas â Sgriwtini ac Archwilio, yn cynnwys y canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd a sefydlwyd gan y Cyngor Sir
- Panel Apwyntio'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

**8 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhan o'r Cynllun Dirprwyo yr oedd y Cyfansoddiad yn dweud ei fod i'r Cyngor gytuno arno (fel y'i ceir ym Mharagraff 3.2 yn y Cyfansoddiad).

**9. RHAGLEN O GYFARFODYDD CYFFREDINOL Y CYNGOR SIR**

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-**

**14 Medi 2010 - 2.00 pm**
**9 Rhagfyr 2010 - 2.00 pm**
**3 Mawrth 2011 - 2.00 pm**
**5 Mai 2011 (Cyfarfod Blynyddol) - 2.00 pm**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4:15 pm**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**